Arddangosfa
# GOLEUDAI I DDYFODIANT

Exhibition
# LIGHTHOUSES INTO FUTURITY

# Alexander Kluge





**PONTIO, BANGOR 29.8.2018-12.9.2018**

Mae Alexander Kluge (ganed 14.2.1932) yn un o brif leisiau deallusol Yr Almaen, gan barhau â chenhadaeth Ysgol Frankfurt. Daeth Kluge'n adnabyddus yn nechrau'r 1960au fel awdur a chyfarwyddwr ffilm ('Sinema Newydd yr Almaen'). Ers hynny, mae wedi derbyn holl wobrau pwysig Yr Almaen am lenyddiaeth, yn ogystal â gwobrau ffilm yn Fenis, Cannes a Berlin. Hefyd fe'i gwahoddwyd i arddangos ei waith yn rhai o brif amgueddfeydd y byd. Hyd yma, mae Kluge wedi cynhyrchu tua 8,000 o dudalennau o storïau a mwy na 120,000 munud o ffilm.

Ar gyfer yr arddangosfa hon, mae Pontio'n dangos nifer fechan o'r hyn a elwir yn 'ffilmiau-munud', ynghyd â llyfryn yn cynnwys storïau byrion a gwybodaeth bellach ar Kluge. Yn y casys gwydr rydym yn arddangos gwrthrychau sy'n adlewyrchu ac archwilio gwaith a thybiaethau Kluge mewn perthynas â Gogledd Cymru. Mae "Goleudai i Ddyfodiant" yn pwyso ar ddau fotif craidd yng ngwaith Kluge. Mae 'Goleudai' yn bethau sy'n cynorthwyo pobl i ganfod y ffordd, yn arbennig ar adegau o derfysg neu helynt, a hynny mewn dyfroedd anghyfarwydd ac yn nes adref. Yr un pryd, mae goleudai hefyd yn cyfleu'r ysbryd o gychwyn i'r anwybod, er gwaetha'r holl beryglon.

Ond trwy gyfeirio'r ffordd ym mhob amgylchiad, mae'n ein galluogi i symud yn iawn a gwneud penderfyniadau ynghylch ble i fynd.
Ond ... beth am ei oleuni? Mae'n symud, ac mae'n dod ymlaen ac yn diffodd. Felly mae goleudy'n gweithio fel symbol o sefydlogrwydd ac o newid. Yn yr ystyr hon, mae Kluge bob amser yn awyddus i'n cyfeirio at natur ddauwynebog bywyd.

Alexander Kluge (born 14.2.1932) is one of the leading intellectual voices in Germany, carrying forward the mission of the Frankfurt School. Kluge achieved renown in the early 1960s as both a writer and a film director ("New German Cinema"). Since then, he has received all of Germany's important prizes for literature, as well as film prizes in Venice, Cannes and Berlin, and he was invited to exhibit his work in world-leading museums. To date, Kluge has produced around 8,000 pages of stories and more than 120,000 minutes of film.

For this exhibition, Pontio is screening a small number of so called "minutes-films" and an accompanying booklet contains short stories, plus further information on Kluge. In the glass cases we display objects which mirror and explore Kluge´s work and thinking in respect to North Wales. "Lighthouses into Futurity" draws on two core motifs in Kluge´s work. "Lighthouses" are aids for orientation, particular in times of unrest or trouble, in unknown waters and close to home. At the same time, lighthouses manifest the spirit to embark into the unknown, despite all risks. By securing orientation in all circumstances, it equips us with the ability to manoeuvre, to make decisions about where to go.

But ... what about its light? It moves, and it goes on and off. So a lighthouse works as both a symbol of stability and of change. In this sense, Kluge is always keen to point us to the Janus-faced nature of life.

Pontio

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY